

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Medi 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K. R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Ms V. Roberts, R. Turner a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

18. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms. J. Hughes, Mrs D. L. King, Mrs W. Mullen James, B. Mellor, Miss S. Roberts, ac A. J. Rutherford.

19. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO

19.1 AIL-YMGYNGHORI

LLEOLIAD Y SAFLE 17/19 Westbourne Avenue, y Rhyl

WARD: Foryd

CYNGHORWYR Y WARD: Mrs. J. Butterfield
A.R. James

RHIF Y CAIS: 45/2019/0181

DISGRIFIAD BLAENOROL: Ail-wampio a throsi dau hen dŷ i ffurfio 4 fflat 1 llofft ar y llawr cyntaf i ddarparu llety â chymorth i bobl ddigartref swyddfeydd ar y llawr gwaelod

DISGRIFIAD NEWYDD: Ail-wampio a throsi dau hen dŷ i ffurfio 4 fflat ar y llawr cyntaf (i ddarparu llety â chymorth i bobl ddigartref) gyda swyddfeydd ar y llawr gwaelod.

YMGEISWYR : Mr. Lyndon Wilson o Adullam Homes Housing Association Limited, 69/87 Bolton Road, Bury.

PENDERFYNIAD BLAENOROL: Dim gwrthwynebiad

	<u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
19.2	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 98 Marsh Road, y Rhyl <u>WARD:</u> Cefndy <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> J. Ball Mrs. P.M. Jones P. Prendergast <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0738 <u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad un llawr wrth ochr tŷ annedd. <u>YMGEISWYR :</u> Mr. a Mrs. Robin a Sandra Jones o'r cyfeiriad uchod. <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>

20. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: